



Gwasanaethau Cymorth Cyfathrebu a Synhwyraidd

Sensory & Communication Support Service

Tŷ Aberhonddu,
Clôs William Brown,
Parc Busnes Llantarnam,
Cwmbrân NP44 3AB
Ffôn: 01633 648888

Brecon House,
William Brown Close,
Llantarnam Business Park,
Cwmbrân NP44 3AB
Telephone: 01633 648888

23ain Ebrill 2020

Annwyl Rien

Roeddwn eisiau rhoi diweddariad i chi ar sut mae'r Gwasanaeth Cymorth Cyfathrebu a Synhwyraidd (SenCom) yn parhau i ymateb i'r sefyllfa CoVID19 ar draws ein rhanbarth a sut allwn gynnig cymorth ychwanegol i chi os ydych ei angen.

Cefnogi Dysgu yn y Cartref

- Mae staff ComIT wedi bod mewn cysylltiad â staff ysgolion ynglŷn â phlant a phobl ifanc a oedd wedi bod yn derbyn sesiynau cymorth 1-1 mewn ysgolion, yn ystod Tymor y Gwanwyn 2020. Mae pecynnau dysgu ar agweddau penodol o leferydd, iaith neu gyfathrebu wedi eu hanfon at staff ysgol, ac maent yn gallu anfon y rhain ymlaen i deuluoedd y plant a'r bobl ifanc.
- Os gofynnir am hynny, mae staff ComIT ar gael i gynnig strategaethau/gweithgareddau/deunyddiau pellach ar Leferydd, iaith a Chyfathrebu. Cysylltwch â'ch ysgol, a gall yr ysgol yna ofyn i ComIT am gymorth pellach.
- Mae staff y gwasanaeth Amhariad Clyw a Golwg mewn cysylltiad â theuluoedd a phan fo rhieni yn gofyn am gymorth maent yn gallu rhoi cyngor ar sut allant gynorthwyo eu plant i ddysgu yn y cartref.
- Mae teuluoedd plant a phobl ifanc a oedd yn derbyn ymyraethau rheolaidd gan SenCom yn cael syniadau/deunyddiau arlein er mwyn iddynt gynorthwyo eu plant i barhau i ddysgu sgiliau.
- Rydym yn ystyried sut y gallwn ddefnyddio adnoddau arlein er mwyn cysylltu gyda a chadw cysylltiad rhwng teuluoedd a SenCom ac rydym yn y broses o ddatblygu ein presenoldeb ar Hwb/Facebook a Twitter. Edrychwch allan am hyn. Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei rhannu cyn gynted ag y bydd ar gael.

Offer Arbenigol

- Gall staff y gwasanaeth Amhariad Clyw a Golwg ddarparu cymorth o bell i deuluoedd ar sut i ddefnyddio offer arbenigol i gynorthwyo gyda dysgu yn y cartref.
- Mae ein hadeilad ar gau ac mae holl staff SenCom yn gweithio o gartre. Cysylltwch â ni os bydd nam ar unrhyw offer a phan fyddwn yn gallu cyrraedd ein hadnoddau unwaith eto, byddwn yn ystyried sut gallwn ddatrys unrhyw broblemau o'r fath.

Darpariaeth Newydd Lleoliadau Gofal Plant Gweithwyr Allweddol/Anghenion Dysgu Ychwanegol

- Os yw eich plentyn yn mynychu un o'r rhain, gofynnwn i chi gysylltu gyda ni. Gall SenCom gynnig cyngor o bell ar gyfer plant a phobl ifanc gydag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu/Anghenion Dysgu Synhwyrdd Ychwanegol i'w cynorthwyo yn y lleoliadau hyn.
- Os yw eich plentyn yn defnyddio technoleg/offer arbenigol wedi ei fenthyg gan SenCom mewn lleoliad, gallwn gynnig cyngor ar sut ellir defnyddio'r offer hwn i gefnogi'r gweithgareddau maent yn cymryd rhan ynddyn nhw pan fyddant yno.

Gofynnwn i chi **gadarnhau enw eich plentyn, eich cyfeiriad cyswllt ebost a'ch rhif(au) ffôn**, er mwyn i ni allu diweddarau ein cofnodion a chadw mewn cysylltiad â chi yn ystod y cyfnod digysail hwn. Fel hyn, gallwn gadw mewn cysylltiad mewn modd dibynadwy.

Gallwch gysylltu â ni drwy ffonio **01633 648888** neu drwy ein prif gyfeiriadau ebost:

Sencom@torfaen.gov.uk

ComIT@torfaen.gov.uk

HIS@torfaen.gov.uk

VIS@torfaen.gov.uk

Yn gywir iawn



Roger Thurlbeck

Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Synhwyrdd a Chyfathrebu

Roger.Thurlbeck@Torfaen.gov.uk

Copi: Penaethiaid Cynhwysiant ar gyfer Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy, Torfaen